

## Tasg 1

# Holiadur y Prif Weinidog, Carwyn Jones A.C.

1.

Pa ddarnau o wybodaeth am Carwyn Jones o'r atebion i'r holiadur sydd fwyaf diddorol i chi? Dewiswch y **tri darn o wybodaeth** fwyaf diddorol. Rhwch resymau pam maen nhw'n ddiddorol i chi?

Darnau o wybodaeth ddiddorol	Rheswm pam mae'r wybodaeth yn ddiddorol
1.	Rheswm 1
2.	Rheswm 2
3.	Rheswm 3

2.

Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn yr atebion i'r holiadur:

1984	Canolfan Mileniwm Cymru	pobl ddiddorol
	amser	rygbi
		copa'r Wyddfa

3.

Tynnwch **bedair** llinell i gysylltu'r lle â'r darn o wybodaeth gywir.

Stadiwm Principality	Cafodd Carwyn Jones ei eni yma.
Aberaeron	Roedd Carwyn Jones yn arfer gallu gweld hon drwy ffenest ei swyddfa.
Abertawe	Cafodd Carwyn Jones ei fagu yma
Pen-y-bont ar Ogwr	Un o hoff fannau Carwyn Jones yng Nghymru

4.

Ar gyfer pob gair, dewiswch ddiffiniad o'r golofn 'Diffiniadau posibl' a'i ysgrifennu wrth ymyl y gair yn y golofn 'Diffiniadau cywir':

Gair	Diffiniadau cywir	Diffiniadau posibl
perthnasau		â chysylltiad â glo
glofaol		y fyddin, y llynges, y llu awyr
amrywiaeth		pobl sy'n rhan o'ch teulu chi, yn perthyn i chi
heriau		mawr, helaeth
y lluoedd arfog		gobaith cryf neu sicr
hyder		llawer o wahanol bethau
gwleidyddol gywir		cyfreithiwr sy'n gallu gweithio yn y llysoedd uchaf
eang		ddim yn sarhau unrhyw aelod o'r gymdeithas
bargyfreithiwr		sialensiau

5.

Yn yr ateb i gwestiwn 6, beth mae Carwyn Jones yn ei ddweud sydd ei angen er mwyn helpu Cymru?

Ticiwch **un**.

Mae angen i economi'r byd fod yn fwy hyderus.	
Mae angen i economi'r byd fod yn wannach ( <i>yn fwy gwan</i> ).	
Mae angen i economi'r byd fod yn gryfach ( <i>yn fwy cryf</i> ).	
Mae angen i economi'r byd fod yn fwy amrywiol.	

6.

Darllenwch ateb y Prif Weinidog i gwestiwn 7, yna, dewiswch y gair gorau i orffen pob brawddeg. Ticiwch un bob tro.

Mae Carwyn Jones eisiau gweld Cymru lle mae digon o \_\_\_\_\_ i bobl

a. amser swyddi heriau ffyrdd

Mae'r Prif Weinidog yn credu y gallwn ni fod gyda'r \_\_\_\_\_ yn y byd.

b. gwaethaf olaf hiraf gorau

Mae Carwyn Jones o'r farn fod eisiau i bobl Cymru fod yn fwy

c. nerfus. hyderus. bodlon. pryderus.

7.

Beth yw ystyr 'ennill buddsoddiad'?

Ticiwch **un**.

Cael cwmnïau i ddod i Gymru am gyfnod byr	
Cael cwmnïau i ddod i Gymru i greu swyddi	
Cael cwmnïau i ddod i Gymru i fuddsoddi amser	
Cael cwmnïau i ddod i Gymru i werthu nwyddau	

8.

Beth roeddech chi'n ei wybod am Carwyn Jones cyn darllen yr holiadur hwn?

I ba raddau rydych chi'n teimlo eich bod yn ei adnabod yn well nawr?

Pa gwestiynau eraill yr hoffech chi eu holi iddo?

9.

Sut byddech chi'n ateb y cwestiynau hyn o'r holiadur?

Fyddech chi o blaid rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed? Pam/Pam lai?

Beth rydych chi'n gallu ei weld drwy ffenestr eich dosbarth?

Beth yw eich diddordebau chi?

Ble mae eich hoff fannau yng Nghymru / yn eich ardal leol?

Cwestiwn estynnol:

Dewiswch gwestiwn arall o'r holiadur, e.e. 6 neu 7, a meddyliwch am ateb da gyda phartner.

10.

Oes rhywun yn y dosbarth yn gwybod yn barod pa waith yr hoffai ei wneud pan fydd yn hŷn? Holwch y person hwn beth sydd wedi ei sbarduno i feddwl fel hyn.

11.

Edrychwch ar ateb y Prif Weinidog i gwestiwn 15.

Ydych chi'n gallu meddwl am ymadroddion bachog eraill tebyg gan ddefnyddio 'heb'? Beth mae angen ei wneud bob tro i'r gair sy'n dilyn 'heb'?

12.

## **Ymchwilio**

Rhannwch yn grwpiau i ddod o hyd i wybodaeth am y pynciau hyn sy'n codi yn atebion Carwyn Jones.

Os ydych chi'n chwilio ar y we, mae'n debyg y bydd y wybodaeth yn Saesneg. Crynowch y

wybodaeth rydych chi'n ei darllen yn Saesneg **mewn brawddegau Cymraeg**.

### **a) Streic y Glowyr, 1984.**

Ydych chi'n gallu deall pam roedd y streic yn gwneud i Carwyn Jones deimlo'n grac wrth y

Llywodraeth Geidwadol ar y pryd?

### **b) Y Ddeddf Rhoi Organau**

Beth yw eich barn chi a gweddill y dosbarth am y ddeddf hon?

### **c) Yr awdur Willard Price.**

Ydy'r darn wedi codi awydd arnoch chi i ddarllen peth o'i waith?

### **ch) Gwaith bargyfreithiwr.**

Sut mae'r gwaith hwn wedi paratoi Carwyn Jones at fyd gwleidyddiaeth, yn eich barn chi?

### **d) Chwiliwch am ragor o wybodaeth am Carwyn Jones ar y we.**

Oes tystiolaeth ar y we yn dangos pa mor brysur yw ei fywyd fel Prif Weinidog?

Edrychwch hefyd ar yr **itemau eraill** hyn yn y rhifyn hwn:

- Pleidlais i rai 16 oed?
- Hanes y bleidlais
- Gyrfaoedd ym maes gwleidyddiaeth

Maen nhw'n berthnasol i atebion y Prif Weinidog i gwestiynau 8, 14 a 15.